



**Cymorth Busnes Gofal Plant**  
**Canllaw ar gyfer Ceisiadau Grant**  
**2023/24**



Mae'r **Grant Gofal Plant a Chwarae** (Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt) yn rhaglen gan **Llywodraeth Cymru** a ddarperir yng Nghaerdydd trwy'r **Gwasanaeth Cymorth Busnes Gofal Plant**. Mae'n cyfrannu at ddarparu ystod o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac mae'n allweddol wrth gefnogi darpariaeth gofal plant fforddiadwy a hygyrch o ansawdd da i fodloni anghenion teuluoedd yng Nghaerdydd.

**Pwy all wneud cais?**

Unrhyw sefydliad gofal plant unig fasnachwr newydd neu bresennol, boed hynny'n sefydliadau corfforedig, o'r sector cyhoeddus neu breifat sy'n cynnig a chynorthwyo datblygu gofal plant cofrestredig cynaliadwy ac o safon.

Er mwyn cydymffurfio â meini prawf y grant, mae'n rhaid i'r sefydliad:

- Weithredu yn unol â'i ddogfen lywodraethu gyfreithiol;
- Gallu dangos ei angen am gymorth ariannol;
- Bod wedi gosod strategaeth ar gyfer cynaliadwyedd parhaus;
- Rhoi tystiolaeth ysgrifenedig o'r galw am y gwasanaeth sydd angen cyllid, ar ffurf Arolygon a Holiaduron Rhieni/Gofalwyr.

Asesir ceisiadau ar sail unigol, gan ystyried cydymffurfiaeth gyfreithiol, sefyllfa ariannol bresennol a rhagfynegiannol y sefydliad sy'n ymgeisio a thystiolaeth bod digon o alw am y gwasanaeth sy'n gofyn am arian.

**Dim ond pan fydd y lleoliad yn gwbl weithredol y bydd cyllid grant ar gyfer pob cais llwyddiannus yn cael ei ryddhau.**

**Rhaid i holl gofnodion AGC a Dewis fod yn gyfredol ar adeg y cais.**

## Beth y gellir ei ariannu?

Gwahoddir ceisiadau am gyllid dan y pedwar categori canlynol:

### Lleoedd Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol newydd neu estynedig y Tu Allan i'r Ysgol (3 oed a hŷn)

Gall ceisiadau am gyllid gynnwys costau sefydlu (ac eithrio staffio, ond yn cynnwys taliadau **untro** a wneir o flaen llawn **am gostau rhent neu yswiriant**), **ac mae'n rhaid i leoliadau allu dangos bod galw am leoedd gofal plant ychwanegol yn eu hardal, ac na fydd y gwasanaeth newydd yn disodli nac yn lleihau darpariaeth gofal plant bresennol**. Mae cymorth ar gael i gynnal arolygon rhieni. Yn y deuddeng mis yn dilyn derbyn y Grant Gofal Plant a Chwarae, byddwn yn dychwelyd i'r lleoliad/darpariaeth i ofyn am fanylion fel a ganlyn:

- Sawl lle a lenwyd yn dilyn derbyn y grant?
- Sawl rhiant a gynorthwyd gan y grant?
- O'r rhai a gynorthwyd, faint oedd yn gweithio 16 awr neu ragor yr wythnos?

## Gwella Gwasanaeth

Gellir rhoi Cymorth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gwella safon y ddarpariaeth, yn benodol pan fo'n berthnasol i ofynion Arolygiaeth Gofal Vymru (AGC) neu faterion a godir yn yr Adroddiadau Archwiliad (cyflwynwch ddyddiad eich Adroddiad AGC diweddaraf ynghyd â'ch cais) i'w gwneud yn addas ar gyfer gofal plant yn barhaus. Mewn amgylchiadau eithriadol gallai cyllid Gwella Darpariaeth fod ar gael i fynd i'r afael â materion a nodir drwy ffynonellau ar wahân i AGC, megis gweithredu'r cwricwlwm newydd fesul achos

## Hyfforddi'r Gweithlu

Rydym yn annog Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gellir rhoi arian i sefydliadau y mae eu staff am ddechrau hyfforddiant penodol (yn cynnwys cymwysterau Gofal Plant a Gwaith Chwarae) o ganlyniad i ofynion AGC neu er mwyn gwella a datblygu gwasanaethau'r ddarpariaeth. Byddem yn disgwyl i hyn fod ar sail tystiolaeth o Ddadansoddiad Anghenion Hyfforddiant eich lleoliad. Nid oes arian grant ar gyfer hyfforddiant Cyfreithiol a Rheoliadol sydd ar gael trwy **Ddatblygu'r Gweithlu** gan fod y rheiny eisoes yn destun cymhorthdal sylweddol.

## Cymorth Ariannol Critigol

Gall darparwyr gofal plant sefydledig sy'n wynebu problemau tymor byr o ran cynnal hyfywedd ariannol, wneud cais am arian Un-tro i helpu i ddarparu gofal plant o ansawdd da yn barhaus. Byddem yn disgwyl i'r cyllid gael ei ddefnyddio ar gyfer marchnata, hysbysebu a hyrwyddo. Mewn achosion eithriadol, gellir gwneud cais am gyllid i fynd i'r afael â chostau annisgwyl, ar yr amod nad yw'r rhain yn ailadrodd. Rhaid i ddarparwyr ddangos sut y maent yn gweithio'n gynyddol tuag at hyfywedd yn y tymor hir. Bydd angen ffigurau Cyllideb Weithredu/Llif Arian gwirioneddol ar gyfer y cyfnod perthnasol.

Bydd angen cyswllt ychwanegol gan y Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant i drafod Cynllun Gweithredu ac i gynnal Gwiriad Iechyd Busnes, a fydd angen dangos tystiolaeth gref o sut y bydd y lleoliad yn dod yn hyfyw ac yn parhau i fod yn hyfyw. Rhaid i'r holl wybodaeth ariannol a ddarperir ymwneud â'r Flwyddyn Ariannol rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

### **Am faint y gallwn ni wneud cais?**

Bydd swm y grant yn dibynnu ar amgylchiadau unigol ond y cyfanswm y gall unrhyw sefydliad wneud cais amdano yn yr un flwyddyn ariannol ar gyfer Gwella Darpariaeth a Hyfforddiant y Gweithlu fydd hyd at **£2000, na ddylai fod yn fwy na £1000 o ran cyfalaf**

Fel canllaw ar gyfer ymgeiswyr, rydym yn disgwyl y bydd nifer y **lleoedd a grëwyd/cadwyd** sy'n cael eu cynorthwyo gan yr arian yn adlewyrchu'r swm y gwneir cais amdano. Byddwn yn ariannu ar gyfradd o **£100** fesul lle gofal plant i Warchodwyr Plant a **£200** i Leoliadau Annomestig, hyd at uchafswm o **£1,000** ar gyfer Gwarchodwr Plant a **£2,000** fesul Lleoliad Annomestig.

**Bydd yn rhaid gwario'r holl arian grant erbyn 31 Mawrth 2024.**

**Sicrhewch fod eich cais yn gyflawn cyn ei gyflwyno oherwydd y gwrthodir ceisiadau anghyflawn.**

### **Sut asesir y ceisiadau?**

Caiff ceisiadau eu sgorio yn ôl meini prawf ar sail yr wybodaeth a thystiolaeth ategol a gyflwynir.

Rhoddir blaenoriaeth barhaus i gynorthwyo galluogi gweithredu'r mesurau sydd eu hangen i aros ar agor a'r rhai sy'n mynd i'r afael ag anghenion rhieni sy'n gweithio ac yn darparu lleoedd i blant sy'n agored i niwed neu sydd ag anghenion ychwanegol.

### **Sut caiff y grant ei fonitro?**

Er mwyn sicrhau bod y grant wedi ei ddefnyddio at y dibenion a fwriedir ac er mwyn asesu ei effaith ar waith sefydliad, cynhelir proses fonitro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, neu ynghynt os yw'r arian wedi ei ddefnyddio'n llawn. Bydd monitro yn y cyfamser hefyd, yn dibynnu ar natur yr arian grant.

Gan amlaf, bydd Swyddog Cymorth Busnes Gofal Plant mewn cysylltiad rheolaidd â'r sefydliadau y maent yn eu hariannu, dros y ffôn, drwy e-bost neu mewn cyfarfodydd.

Gofynnir hefyd i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau ffurflen werthuso ar y broses ymgeisio am arian fel dull o roi'r gallu i ni sicrhau y darperir y gwasanaeth mor effeithlon â phosibl.

### **Pryd cawn wybod a fuom yn llwyddiannus?**

Rhoddir gwybod i ymgeiswyr p'un a fuont yn llwyddiannus ai peidio o fewn mis wedi iddynt gyflwyno eu cais.

Os gwrthodir eich cais, mae modd ailgyflwyno cais wedi ei ddiwygio yn yr un flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, byddai angen i chi ddangos pa newidiadau rydych wedi eu gwneud er mwyn atgyfnerthu eich cais am arian.

Dolenni ychwanegol:

[Dolen i fesurau Diogelu Llywodraeth Cymru mewn lleoliadau gofal plant: Cadw Gofal Plant yn Ddiogel](#)

[Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig](#)

[Dolen Asiantaeth Safonau Bwyd](#)

[Dolen Diweddariadau AGC](#)

**“This form is available in English / Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg.”**

Os ydych yn dymuno diddymu eich cais ar unrhyw adeg, rhowch wybod i'r **Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant** ar **029 20351714**.

